
# Crynodeb O Adroddiad Hunanasesu A Llesiant Blynyddol 2023/24

**Mae ein Cynllun Sirol yn amlinellu ein hamcanion llesiant tymor canolig, ac mae ein Nodweddion sy'n diffinio Cyngor Rhagorol yn darparu'r fframwaith ar gyfer gosod safonau. Gyda'i gilydd, maen nhw'n gosod y mecanweithiau ar gyfer cyflawni uchelgeisiau'r Cyngor.**

**Yn Nhorfaen, mae blaenoriaethau ein Cynllun Sirol yn helpu:**

- codi cyrhaeddiad addysgol
- plant a theuluoedd i ffynnu
- lleihau anghydraddoldeb
- cysylltu pobl a chymunedau
- gwella'r amgylchedd lleol a chodi ein cyfraddau ailgylchu
- busnesau newydd
- pobl i ddewis ffyrdd iachach o fyw
- gwneud cymunedau'n ddiogel ac yn ddeniadol
- darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.




**Dyma drosolwg o'n cynnydd yn erbyn ein gweithgareddau allweddol wedi ei nodi yn erbyn ein hamcanion:**

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn pob un o'n Hamcanion Llesiant, a nodwyd bod y mwyafrif helaeth naill ai ar y trywydd cywir neu wedi'u cwblhau (73%). Fodd bynnag, roedd 22% o'r camau gweithredu wedi wynebu rhai anawsterau, ond rydym yn hyderus fod cynllun clir yn ei le i'w cael yn ôl ar y trywydd cywir, ac ystyriwyd bod pryderon mwy sylweddol ynghylch 3%.

Cyflawnwyd bron i dri chwarter yr holl brosiectau, ac roedd oedi gyda'r pedwerydd chwarter ond ymrwymiad llwyr i'w cyflawni.  Felly, o ystyried bod 176 o weithgareddau, a dim ond 3 wedi'u hatal a 5 yn achosi pryder, mae graddfa a chyflymder y gwaith cyflawni yn amlwg.  I raddau helaeth iawn, gellir priodoli hyn i waith caled swyddogion ac effaith y prosesau rheoli prosiectau a pherfformiad newydd yr ydym wedi'u sefydlu ar draws y Cyngor. Mae llawer o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn yn ganlyniad i'w natur gymhleth, ac mae yna anawsterau pellach sy'n gysylltiedig â chwyddiant, cyllid, costau byw a'r gweithlu.

Cyflwynodd y Cyngor adroddiad llawn yn nodi'n fanylach y cynnydd a wnaed, yn erbyn pob un o'n Hamcanion Llesiant, ym mis Gorffennaf 2024 ac mae ar gael yma. Mae uchafbwyntiau allweddol ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn erbyn detholiad o weithgareddau allweddol, o dan bob un o 9 Amcan Llesiant ein Cynllun Sirol, fel a ganlyn:

**Rhai o'r uchafbwyntiau allweddol o'r flwyddyn ddiwethaf:**

## Amcan Llesiant 1

**– codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol**

- **Alinio'n gwasanaethau plant a'n gwasanaethau addysg yn strategol,** i mewn i un Gyfarwyddiaeth, sy'n gymorth i oleuo ein penderfyniadau yn well o ran sut rydym yn rhoi cymorth ac ymyrraeth i'n plant a'n pobl ifanc.
- **Cynhaliwyd gwerthusiadau** o'r addysgu a'r dysgu ym mhob un o'n hysgolion bob tymor.



- **Cafwyd adborth cadarnhaol gan Estyn** am y ffordd yr ydym nawr yn dal ysgolion a gwasanaethau cymorth i gyfrif yn effeithiol am eu gwaith ac yn gwella canlyniadau i ddisgyblion.

- **Mae 7 o'r 8 o'n hysgolion a arolygwyd yn 23/24 wedi cael canlyniad Arolygiad positif gan Estyn,** ac un ysgol mewn mesurau arbennig o hyd.

- **Dechrau adeiladu Ysgol Gynradd newydd Maendy, gwerth £17m.**

- **Aeth ein ffigurau ar gyfer pobl ifanc NEET i lawr i 1.9%,** a nawr ni yw'r 9fed o 22 ALl ac rydym yn is na'r cyfartaledd i Gymru.

- **Parhau i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd profiad gwaith** ar gyfer ein disgyblion sy'n gadael yr ysgol.

- **Cyfraddau presenoldeb wedi gwella 1.4% dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf** mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd - y gwelliant mwyaf ledled Cymru.

- **Cwblhau strategaeth bresenoldeb newydd ac ymgyrch #DdimMewnColliMas** sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd mynd i'r ysgol bob dydd.

- **Helpu 100% o Oedolion sy'n Dysgu yn y Gymuned** i ennill graddau A i C yn Saesneg a 68% i gael graddau A i C mewn Mathemateg.

- **Cofrestru 750 o bobl ar gyrsiau Sgiliau Hanfodol i oedolion a dysgwyr yn y gymuned.**

- **Cofrestru 170 o bobl ar gyrsiau Digidol i oedolion a dysgwyr yn y gymuned.**

- **Agor siop un stop newydd yng Nghanol Tref Cwmbrân** i unrhyw un sy'n chwilio am swydd neu sydd eisiau gwella eu sgiliau. ('Torfaen yn Gweithio').

- **Dechrau adeiladu** ein maes 3G newydd yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw.

## Amcan Llesiant 2

**- nnog a hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu**

- **Agor Carreg Lam, canolfan arbenigol** i blant sy'n dymuno symud o addysg gynradd cyfrwng Saesneg i gyfrwng Cymraeg.

- **Agor Gofal Plant Yr Enfys Gwynllyw,** sef lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw.

- **Ehangu ein darpariaeth gofal plant yn sylweddol yn Nhorfaen, trwy ardaloedd Dechrau'n Deg newydd** sy'n mynd i fod o fudd i fwy o deuluoedd.

- **Cafwyd adborth cadarnhaol gan AGC** am ein hymrwymiad i gefnogi plant a phobl ifanc i aros gyda'u teuluoedd, lle y bo'n ddiogel iddynt wneud hynny.

- **Parhau i weithio tuag at ostyngiad diogel yn ein poblogaeth o blant sy'n derbyn gofal.**

- **Adolygu ein darpariaeth llety i bobl ifanc a'i datblygu.**

- **Symud ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu ein darpariaeth breswyl fewnol gyntaf** i blant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion cymhleth.

- **Lansio cynllun allgymorth newydd i bobl ifanc** i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghwmbrân.

- **Parhau i ddarparu darpariaeth chwarae am ddim** ar gyfer miloedd o blant ar draws y Fwrdeistref, trwy ein Gwasanaeth Chwarae.

- **Estyn prydau ysgol am ddim allan i bob plentyn ysgol gynradd.** Rydym yn un o'r 14 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnig prydau ysgol am ddim i bob grwp blwyddyn.

## Amcan Llesiant 3

**- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad**

- **Creu Cyfarwyddiaeth Oedolion a Chymunedau newydd** a fydd yn helpu i ddatblygu "model cymunedau" newydd i ddatblygu gwasanaethau a'u cyflwyno.

- **Penderfynu'n Derfynol ar ein Strategaeth Llesiant Cymunedol,** sef ein cynllun tair blynedd cychwynnol a gynlluniwyd gyda ffocws ar gymunedau, llesiant ac atal, ac sy'n rhoi cymunedau wrth galon gwasanaethau.

- **Creu gwasanaeth Ail-alluogi Integredig** i gefnogi unigolion i gynnal eu hannibyniaeth yn well.

- **Sefydlu Rhwydwaith Hyrwyddwyr Gofalwyr** i helpu i roi cyngor a chymorth i staff sy'n ofalwyr di-dâl.



- **Ni oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i ennill Achrediad Cyflogwr sy'n Ystyried Gofalwyr** gan Care Collective.

- **Cefnogwyd dros 500 o drigolion i reoli dyledion,** a rhoddwyd cyngor am fanteisio i'r eithaf ar fudd-daliadau a chyflogaeth.

- **Penderfynwyd yn derfynol ar ein Cynllun Ailgartrefu Cyflym,** yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i atal digartrefedd a'i liniaru.

- **Defnyddiwyd Cyllid y Grant Cymorth Tai** i droi Tŷ Pearl yn 15 fflat un-ystafell-wely, i bobl ddigartref yn Nhorfaen.

## Amcan Llesiant 4

**- gwneud torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol**

- **Sicrhau buddsoddiad o £420,000 mewn dau gynllun Teithio Llesol/Llwybrau Diogel i'r Ysgol.**

- **Parhau i uwchraddio Gorsaf Drenau Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd.**

- **Lansio ein Hwb Cymorth i Gyn-filwyr newydd i Dorfaen yng Nghwmbrân** sy'n cynnig ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys cymorth gyda budd-daliadau a thai, mynediad at adnoddau iechyd meddwl, a chyfleoedd i ennill sgiliau newydd.

- **Lansio ein rhaglen partneriaeth newydd, 'Cysylltu Torfaen'** a fydd yn helpu i gynyddu cyfleoedd am gyllid i'n sefydliadau Trydydd Sector.

## Amcan Llesiant 5

**– ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol**

- **Creu trefn lywodraethu newydd** i'n helpu ni i godi ein cyfraddau ailgylchu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 70%, erbyn 2025.

- **Ehangu ein gwasanaeth ailgylchu wrth ymyl y ffordd,** i gynnwys casglu hen fatris yn y blychau ailgylchu du, a chasglu cardfwrdd yn wythnosol.

- **Buddsoddwyd yn ein cerbydau ailgylchu,** gan gynnwys technoleg newydd yn y cab a hyfforddiant i staff, i wella ansawdd y gwasanaeth.

- **Cyflwynwyd pwyntiau ailgylchu newydd** ar gyfer ein trigolion, ar gyfer bagiau plastig a deunydd lapio a elwir yn blastig "sy'n ymestyn."

- **Cynigiwyd compost am ddim i'n trigolion,** yn rhan o gynllun peilot i ailddefnyddio gwastraff gwyrdd a gasglwyd o gartrefi lleol – yn rhad ac am ddim.

- **Parhau i weithio mewn partneriaeth â Thai Cymunedol Bron Afon** i gynyddu nifer y fflatiau sydd â chyfleusterau ailgylchu.

- **Parhau i gynnal digwyddiadau Gwanwyn Glân** gyda gwirfoddolwyr a phlant ysgol i daclo mannau sydd â phroblem sbwriel o amgylch y Fwrdeistref.

- **Penodi dau Swyddog Datgarboneiddio newydd** i roi cyngor a chymorth i'n trigolion, ein cymunedau a'n busnesau, er mwyn ein helpu i gwrdd â tharged sero net 2050 y Llywodraeth ar gyfer allyriadau carbon.

- **Gosod paneli solar** ar 14 o ysgolion.

- **Cyflwyno ein Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd** i Lywodraeth Cymru sy'n nodi ein strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd dros y chwe blynedd nesaf.

- **Datblygu cynlluniau** i Bwll Glo Blaenserchan ddod yn 8fed Gwarchodfa Natur Leol.

## Amcan Llesiant 6

**- gwneud torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd**

- **Lansio Gwasanaeth Cyswllt Busnes Torfaen newydd i gefnogi busnesau newydd a darpar-fusnesau** sydd eisiau sefydlu eu busnes yng nghanol tref Blaenafon neu Bont-y-pŵl.

- **Lansio clwb dechrau busnes newydd.** Bydd y Clwb Dechrau Busnes a ariennir yn llawn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar entrepreneuriaid i sefydlu eu busnes eu hun, a'i redeg, gan gynnwys gweithdai wythnosol dan arweiniad arbenigwyr, a chymorth.

- **Gweithiwyd gyda Fforwm Busnes Torfaen a'r '60 busnes gorau' yn ein hardal** i helpu i ystyried buddsoddiad strategol a chynlluniau busnes.

- **Cyflwynwyd 17 o Grantiau Technoleg gwerth cyfanswm o £44,833** gyda'r nod o gefnogi buddsoddiad mewn technolegau newydd, gan greu buddsoddiad o £185,000 yn ein busnesau lleol.



## Amcan Llesiant 7

**- hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol**

- **Lluniwyd Strategaeth Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd a Lles Emosiynol** ar gyfer pob ysgol.

- **Dyrannwyd £2.3 miliwn** o Gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin i adeiladu cae chwaraeon cymunedol newydd ar gyfer pob tywydd, gyda llifoleuadau, ar gyfer gogledd y Fwrdeistref.

- Yn rhan o'n buddsoddiad ehangach mewn cyfleusterau chwaraeon yn y Fwrdeistref, **mae caeau 3G hefyd yn cael eu hadeiladu** yn ein hysgol uwchradd cyfrwng Gymraeg - Ysgol Gymraeg Gwynllyw, ac ar hen gaeau ysgol yn Llantarnam.

- **Agor cyfleuster cymunedol aml-bwrpas newydd yn Ysgol Croesyceiliog** yn rhan o fuddsoddiad gwerth £30 miliwn sy'n cynnwys neuadd chwaraeon a chyfleusterau newid newydd, stiwdio ddawns, ystafelloedd cynadledda a theatr â lle i 200 o bobl, y gall grwpiau a chlybiau lleol nawr eu llogi.

- **Parhau i ddatblygu ac ehangu cyfleoedd i bobl wella eu ffitrwydd, eu iechyd a'u lles,** gan gynnwys For Dads By Dads a sesiynau ffitrwydd i famau a'u merched).

## Amcan Llesiant 8

**– cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol a gwneud torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef**

- **Parhau i fynd ar drywydd cyllid i adfywio canol ein trefi:**
  - £9.3 miliwn o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU i greu prosiect Hwb Diwylliannol Pont-y-pŵl. Nod yr arian hwn gan y Llywodraeth yw creu swyddi a thyfu'r economi lleol o fewn ardal benodol.
  - Buddsoddi mwy nag £1m i drawsnewid tri adeilad segur yng Nghanol Tref Blaenafon (Market Tavern, yr hen Bwci a hen siop y cigydd ar Broad Street)

- Gwahoddwyd ein trigolion i gynnig sylwadau am gynlluniau ar gyfer cynllun draenio newydd ar **Safle'r British** i helpu i wella diogelwch y safle.

- **Darparwyd buddsoddiad ychwanegol o £1.64** miliwn i ailddatblygu Fferm Gymunedol Greenmeadow.

- **Cymeradwywyd cynllun 10-mlynedd newydd i warchod a gwella Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu** yn Nhorfaen.

## Amcan Llesiant 9

**– darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a hynny i adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau**

- **Penderfynu'n derfynol ar ein Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf a'n Cynllun Cyflawni Blynyddol,** sy'n nodi sut y byddwn yn defnyddio Digidol, Data a Thechnoleg i wella profiad y cwsmer a'n heffeithlonrwydd wrth weithredu.

- **Gwahoddwyd ein dinasyddion i gymryd rhan gyda ni yng nghyfarfodydd Panel y Bobl Torfaen**, fel eu bod yn gallu dweud eu dweud am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud neu y mae'n bwriadu ei wneud.

- **Ail-lansiwyd Fforwm Ieuenctid Torfaen,** sef grŵp sy'n galluogi pobl ifanc i siarad â ni, am faterion sy'n effeithio arnyn nhw.

# BLAENORIAETHAU A HERIAU AR GYFER Y FLWYDDYN SYDD AR DROED:

Rydym wedi nodi nifer o heriau yr ydym yn eu hwynebu, sy'n gysylltiedig â phob un o'n hamcanion llesiant. Bydd gofyn goresgyn y rhain er mwyn i ni wireddu ein huchelgeisiau. Er mwyn symud ein huchelgeisiau yn eu blaen yn y flwyddyn sydd ar droed, rydym wedi cyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer 2024/25.

Datblygwyd ein cynllun cyflawni ar gyfer 2024/25 gan ystyried heriau allweddol newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli, ynghyd â'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer 2023/24.

Aeth y Cyngor ati i fabwysiadu ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2024/25 a'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2024. Mae'n troi ein huchelgeisiau yn gamau gweithredu wrth i ni symud ymlaen i'r cam nesaf o gyflawni ein Cynllun Sirol. Mae'r dull blynyddol hwn o gynllunio ar lefel sirol yn golygu, wrth symud ymlaen, y bydd ein cynlluniau yn ailadroddus ac yn ystwyth, ac yn ystyried unrhyw fentrau, heriau a chyfleoedd newydd sydd wedi codi ac y gellir ymateb iddynt, trwy gydol oes y Cynllun Sirol.

Trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn parhau i fonitro ein cynnydd yn rheolaidd, a'i ddangos, er mwyn dangos tystiolaeth o lwyddiant ein huchelgeisiau. Bydd hyn yn ganolog wrth wireddu ein dyheadau.



# TORFAEN: CYNGOR RHAGOROL:

**Mae ein 'Nodweddion sy'n diffinio Cyngor Rhagorol' mewnol ni'n hunain yn gyrru gwelliannau o fewn Cyngor Torfaen.**

Fel yr ydym yn ei wneud ar gyfer y Cynllun Sirol, rydym yn parhau i fonitro'r camau gweithredu allweddol a fydd, yn ein barn ni, yn ein symud ymlaen at fod yn Gyngor Rhagorol. Isod, ceir trosolwg o'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn erbyn ein 8 nodwedd yn ystod 2023/24:

### 1. Cyngor arloesol …

- Sy'n drawsnewidiol ac yn barod i wneud pethau'n wahanol
- Sy'n barod i dderbyn risg
- Meithrin arloesi yn y gweithle a thu allan
- Un sy'n chwilfrydig ac yn agored i dueddiadau a thechnolegau newydd

### 2. Cyngor ysbrydoledig a gweledigaethol sy'n…

- Gwella bywydau drwy arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion effeithiol
- Adnabod a bachu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol
- Gosod cyfeiriad clir a nodau hirdymor
- Lleihau ei ôl-troed carbon

### 3. Cyngor sy'n perfformio ar lefel uchel sy'n…

- Cyfleu blaenoriaethau a disgwyliadau'r cyngor
- Un sydd bob amser yn dysgu ac am wella
- Mesur yr hyn sy'n bwysig i drigolion a chymunedau
- Un sy'n hunanwerthuso i ganolbwyntio ar effaith a chanlyniadau
- Un sy'n deall ei bwrpas ac yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol

### 4. Cyngor cydweithredol a chynhwysol sy'n…

- Meithrin natur gynhwysol a chyfartal
- Cydnabod cyfraniad eraill
- Croesawu her a chyfathrebu gan gydweithwyr, cyfoedion a phartneriaid
- Canolbwyntio ar gryfderau partneriaid a chymunedau
- Agored i rannu adnoddau gyda phartneriaid a chymunedau
- Croesawu syniadau ac yn agored i gefnogi i gyflawni ei flaenoriaethau strategol

### 5. Cyngor wedi ei reoli'n dda, sydd yn…

- Croesawu ei werthoedd craidd
- Gwerthfawrogi llesiant a chyfraniad staff
- Buddsoddi mewn staff a meddu ar gynlluniau ar gyfer y gweithlu'r dyfodol
- Fford dda o reoli i sicrhau y gweir penderfyniadau cadarn

### 6. Cyngor ysgogol a hygyrch sy'n…


- Defnyddio ystod eang o offer i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid
- Cynnwys staff a thrigolion ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw
- Manteisio syniadau gan gwsmeriaid a staff
- Agored ac yn onest gyda staff a thrigolion
- Rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad amserol ac yn dathlu llwyddiant

### 7. Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol sy'n …

- Meddu ar dulliau llywodraethu ariannol cadarn
- Rheoli adnoddau'n llwyddiannus ac yn cheisio gwerth am arian
- Cynhyrchu incwm lle bo hynny'n briodol
- Hyrwyddo mewnfuddsoddi mewnol i'r eithaf
- Buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol

### 8. Cyngor sy'n digidol, sy'n cael ei arwain gan ddata, ac sy'n …

- Defnyddio data i ragweld anghenion
- Creu proffiliau digidol i ddeall siwmeiau cwsmeriaid yn well
- Bob amser ymlaen - galluogi trigolion i gael mynediad at ystod eang o wasanaethau digidol
- Cynnwys trigolion drwy gynhwysiant digidol a llwyfannau digidol






## Cyngor arloesol sydd:

1

- wedi creu llwyfan ar ein mewnrwyd er mwyn i staff gyflwyno 'Syniadau Rebel' ynghylch newid, gwelliannau ac arloesi sy'n cael eu rhannu gyda thîm Arwain y Cyngor a gyda'n gilydd
- wedi datblygu ein prosesau Cynllunio Gwasanaethau i fod yn fwy cyd-gysylltiedig yn fewnol, pan fyddwn yn cynllunio sut i ddarparu ein gwasanaethau

## Cyngor ysbrydoledig a gweledigaethol sydd:

2

- wedi gweithio yn agos gyda'n partneriaid ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i ddod yn rhanbarth 'Marmot' gyda'r bwriad o gymryd camau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau anghydraddoldeb ac i roi sylw i heriau allweddol i lesiant ar hyn o bryd ac yn y tymor hir, ar draws y rhanbarth
- yn datblygu uwch-gynllun, ar sail Egwyddorion Marmot, a fydd yn rhoi gweledigaeth fwy hirdymor ar gyfer y sir.

## Cyngor sy'n perfformio ar lefel uchel sydd:

3

- yn parhau i ddatblygu'r defnydd o PowerBi i awtomeiddio'r ffordd yr ydym yn adrodd am berfformiad ymhellach ar draws rhannau o'r Cyngor
- wedi adolygu sut yr ydym yn casglu barn ein trigolion, ac yn casglu persbectifau defnyddwyr gwasanaethau, i oleuo/gwella'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau

## Cyngor cydweithredol a chynhwysol sydd:

4

- wedi mabwysiadu 'Strategaeth Llesiant Cymunedol' sy'n nodi gweledigaeth a chenhadaeth newydd ar gyfer y Cyngor, gan sicrhau bod 'cymunedau' a 'llesiant ac atal' yn gonglfeini dilys i'r ffordd yr ydym yn dylunio ein gwasanaethau
- wedi sefydlu gofynion ein Strategaeth Cyfranogiad, gan roi cyfleoedd priodol i'n trigolion i ddweud eu dweud am: y ffordd yr ydym yn gweithio a'r penderfyniadau y mae angen eu gwneud arnom

## Cyngor wedi ei reoli'n dda sydd:

5

- wedi cryfhau ein dull gweithredu o amgylch Strategaeth y Gweithlu, gan adolygu ein rhaglen arfarnu perfformiad gyfredol, fel bod yr holl staff yn elwa
- wedi lansio rhaglen datblygu gyrfa i annog pobl i ddilyn gyrfa yn y Cyngor
- yn rhoi cyfle i'n gweithwyr i ennill cymwysterau wedi eu hariannu'n llwyr o Fframwaith Prentisiaethau Llywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu eu sgiliau ac i gefnogi eu datblygiad proffesiynol.

## Cyngor ysgogol a hygyrch sydd:

6

- wedi cyflwyno ffordd newydd o weithio, 'Rebel Torfaen', sy'n grymuso ein staff i gyflwyno eu syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau, trwy amrywiaeth o grwpiau a arweinir gan staff, ac sy'n ystyried rhai o'r heriau strategol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ac yn adlewyrchu'r heriau y mae'r Tîm Arwain yn eu hystyried
- yn datblygu grŵp 'Rebel Ieuenctid' a fydd yn ein galluogi i gynnwys pobl ifanc yn well ym mhrosesau penderfynu'r Cyngor

## Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol, sydd:

7

- wedi cael adborth cadarnhaol gan ein rheoleiddwyr ein bod yn sefydliad sy'n cael ei lywodraethu'n dda, y mae ei adnoddau'n cael eu rheoli'n dda ac sydd â phrosesau ariannol da
- yn parhau i weithredu fframwaith effeithiol o atebolrwydd ariannol, sy'n gallu cael ei ddangos gan ein trefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, trwy weithdrefnau cyfrifyddu a Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod
- wedi datblygu 'Prosiect Apollo', sef ein dull gweithredu sydd ar waith ar draws y Cyngor sydd ag 8 ffrwd waith ar wahân i fynd i'r afael â'r diffyg yn ein cynllun ariannol tymor canolig
- yn parhau i ddatblygu Swyddogaeth Rheoli Portffolios sy'n gwella'r ffordd yr ydym yn blaenoriaethu buddsoddiad Cyfalaf ac yn sicrhau gwerth am arian

## Cyngor sy'n ddigidol, sy'n cael ei arwain gan ddata ac sydd:

8

- wedi sicrhau cyllid ar gyfer Tîm Cydweithrediad Ymchwil Penderfynyddion Iechyd a fydd yn arwain wrth ddod â'r wybodaeth a'r ymchwil at ei gilydd a fydd yn ein helpu i ddeall ein cymunedau yn well
- wedi datblygu Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf, sy'n darparu gweledigaeth strategol glir ar ein taith i ddod yn Gyngor digidol a arweinir gan ddata
- wedi datblygu proffilio digidol er mwyn deall ein cwsmeriaid yn well ac, yn ganlyniad, wedi dechrau cyflwyno Awtomeiddio Proses Robotig

